CYNLLUN CODI YMWYBYDDIAETH AM AWTISTIAETH

Mae tystiolaeth bod 1 : 100 yn y Deyrnas Unedig gyda chyflwr Awtistiaeth a bod y mwyafrif yn wrywaidd (3:1). Mae yn cael ei ystyried fel “Anabledd Cudd”

Yn ddiweddar, mae codi ymwybyddiaeth am Awtistiaeth wedi cael sylw gan nifer o arch-farchnadoedd ac maent wedi cychwyn Awr Ddistaw, ble maent yn gostwng y goleuadau a diffod y gerddoriaeth. Mae hyn yn ei wneud yn fwy hwylus i siopa i rai sy’n Awtistig.

Hyd yma, mae naw mudiad yn y Trydydd Sector wedi derbyn hyfforddiant (rhad ac am ddim) ac o leiaf chwe mudiad i'w dderbyn eto cyn diwedd y Prosiect ar 31 o Fawrth 2019.

Mae tri chais grant gan Fudiadau Trydydd Sector i wneud safleoedd yn fwy cyfeillgar i unigolion sydd efo Awtistiaeth wedi eu derbyn a’u cymeradwyo. Mae £2,000 dal heb ei wario, felly os dymunwch wneud cais bydd rhaid ei dderbyn cyn diwedd Chwefror 2019. Cysylltwch â Mair Richards, Swyddog codi ymwybyddiaeth am Awtistiaeth drwy ffonio 01286 672626 neu e-bostio: mair.richards@ mantellgwynedd.com. (Mudiadau Trydydd Sector yn unig)

Mae’r swyddog yn gweithio gyda Hwb Caernarfon a nifer o siopa ym Mhwllheli i godi ymwybyddiaeth fel rhan o ymgyrch Weli -di- fi. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mair Richards neu www.asdinfoWales.co.uk/can-you-see-me.